



Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fodolaeth taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal cymdeithasol

Llinell Gyntaf

Mae gan bobl sy'n derbyn gofal cymdeithasol hawl cyfreithiol i gael dewis o dderbyn arian ar ffurf taliadau uniongyrchol (y gallant eu defnyddio i dalu am ofal yn breifat) neu i'r arian gael ei sianelu trwy awdurdodau lleol. Mae gan y ddau ddull eu cefnogwyr a'u beirniaid. Fodd bynnag, mae llawer o bobl anabl yn dweud nad ydynt yn gwybod am y dewis hwn.

Prif Ofynion

Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwmo i gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus am:

- Fodolaeth taliadau uniongyrchol i'r sawl sy'n derbyn gofal cymdeithasol (yn hytrach na bod yr arian yn mynd trwy awdurdodau lleol).
- Y ffaith fod gan y sawl sy'n derbyn gofal cymdeithasol y dewis o benderfynu a fydd arian gofal cymdeithasol yn cael ei dderbyn yn daliadau uniongyrchol neu a fydd yn cael ei dalu i awdurdodau lleol.
- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n derbyn arian gofal y gallant ddewis a fydd arian gofal cymdeithasol yn cael ei dderbyn yn daliadau uniongyrchol neu a fydd yn cael ei dalu i awdurdodau lleol.

Ystadegau

- Ym mlwyddyn ariannol 2018-2019, derbyniodd 75,741¹ o unigolion 18 oed neu'n hŷn wasanaethau gofal iechyd oddi wrth eu hawdurdod lleol.
- O blith y rhain, dim ond 6,262² o unigolion dderbyniodd daliadau uniongyrchol.
- Mae hynny'n dangos nad yw tua 69,479 o unigolion yn derbyn taliadau uniongyrchol fel eu dewis ffordd o dderbyn gofal.
- Mae hynny'n cyfateb i ddim ond 8.3 y cant o bobl anabl yng Nghymru sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol.

Cyd-destun

Pwrpas taliadau uniongyrchol yw ymrymuso pobl anabl i gael rheolaeth dros eu gofal, a sut maen nhw am eu derbyn. Efallai y byddai'n well gan rai pobl i awdurdod lleol ddarparu cymorth neu wasanaethau, ac efallai y byddai'n well gan eraill brynu hynny eu hunain. Ond y pwynt allweddol yw bod gan yr unigolyn reolaeth dros eu bywyd eu hunan, gan helpu cynyddu annibyniaeth, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a gwella llesiant.

¹ Data Gofal Cymdeithasol Cymru – 2018-2019. Dolen: <http://www.socialcaredata.wales/IAS/themes/adults/adultsreceivingcareandsupport/tabular?viewId=2212&geoid=1&subsetId=>

² Ystadegau Cymru. Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion. Dolen: <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Adult-Services/Service-Provision/adultsreceiving-services-by-local-authority-age-group>

Fodd bynnag, mae nifer yr unigolion sy'n dewis derbyn taliadau uniongyrchol yng Nghymru yn isel, ac mae llawer o bobl anabl yng Nghymru yn dweud nad ydynt yn gwybod am eu bodolaeth.

Gwybodaeth gefndir

Cyflwynwyd Taliadau Uniongyrchol gan Lywodraeth y DU yn rhan o Ddeddf Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) (1996). Roedd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i gynnig taliadau uniongyrchol i'r sawl yr oeddent yn eu hystyried yn gymwys yn rhan o beilot o'r cynllun. Yn ddiweddarach, rhoddodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2001) ddyletswydd ar awdurdodau lleol i roi gwybod i unigolion am eu hawl i ofyn am ofal ar ffurf taliadau uniongyrchol.

Yng Nghymru, rheolir taliadau uniongyrchol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015.

